# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 19 Chwefror 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Prif Weinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55650)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55649) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55646) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn ei ateb i WAQ55505, a wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o'r dyddiadau pan gafodd gyfarfodydd gyda Llywodraeth y DU i drafod, 'Mynd am Dwf, Ein Ffyniant at y Dyfodol' yn ystod y 12 mis diwethaf a dyddiad y cyfarfod nesaf. (WAQ55642)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I have regular meetings with the Secretary of State for Wales where we have discussed a variety of issues, including 'Going for Growth, Our Future Prosperity'.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55647) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55648) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran cynnal dadansoddiad lleol o anghenion yng nghyswllt gweithredu cartrefi nyrsio di-elw. (WAQ55657)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Ar 1af Chwefror 2010, mewn ymateb i WAQ55525, dywedais wrthych fod dau brosiect arddangos yn cael eu datblygu yn Llanfair-ym-Muallt ym Mhowys a Thregaron yng Ngheredigion i ddatblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal.  Mae asesiad o anghenion lleol yn rhan hanfodol o'r gwaith y mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn ei wneud i baratoi eu hachosion buses.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o lawdriniaethau a oedd i fod i gael eu gwneud yn Ysbyty Bronglais a gafodd eu canslo yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2009 a mis Ionawr 2010, a beth oedd y rhesymau dros eu canslo. (WAQ55643)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2009, canslwyd cyfanswm o 243 o lawdriniaethau a drefnwyd yn Ysbyty Bronglais. O'r rhain, canslwyd 78 oherwydd rhesymau'n ymwneud â'r cleifion, 127 oherwydd rhesymau nad ydynt yn rhai clinigol gan yr ysbyty, a 38 oherwydd rhesymau clinigol gan yr ysbyty. Dangosir dadansoddiad fesul mis yn y tabl isod.

| | Tach 2009 | Rhag 2009 |
|---|---|---|
| Clinigol gan yr ysbyty | 15 | 23 |
| nad ydynt yn rhai clinigol gan yr ysbyty | 95 | 32 |
| Rhesymau'n ymwneud â'r Cleifion | 43 | 35 |
| **Cyfanswm** | **153** | **90** |

Nid yw ystadegau ar gyfer mis Ionawr 2010 ar gael ar hyn o bryd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o apwyntiadau a drefnwyd ar gyfer mân driniaethau a phrofion yn Ysbyty Bronglais a gafodd eu canslo yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2009 a mis Ionawr 2010, a beth oedd y rhesymau dros eu canslo. (WAQ55644)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55652) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

**Chris Franks (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu diffibrilwyr yng Nghanol De Cymru. (WAQ55654)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Mae Comisiwn Iechyd Cymru a'r 3 Rhwydwaith Cardiaidd rhanbarthol wedi cytuno ar gynllun datblygu strategol Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau arhythmia, sy'n cynnwys cynlluniau i wella'r gyfradd fynediad i Diffibrilwyr Cardiaidd y gellir eu Mewnosod (ICDau). Bydd hyn yn helpu i ddiwallu anghenion poblogaeth Canol De Cymru. Caiff y £2.550m o gyllid canolog a ddarparwyd gennyf i ategu'r cynllun datblygu strategol ei glustnodi i'r saith BILl o 2010-11 a disgwyliaf iddynt barhau i weithredu'r cynllun.

**Chris Franks (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y materion sy'n ymwneud â pherfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. (WAQ55655)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Caiff perfformiad ei fonitro fel mater o drefn gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chynhelir cyfarfodydd misol rhwng y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r BILl i drafod a mynd i'r afael ag unrhyw faterion. Yn ogystal, mae Prif Weithredwr y GIG yn cyfarfod â Phrif Weithredwyr pob un o'r BILlau ar y cyd i ystyried perfformiad, ac rwyf yn cyfarfod â Chadeiryddion i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o unrhyw faterion o ran perfformiad.

O'r datganiad ystadegol diweddar, byddwch wedi gweld bod BILl Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyflawni'r amseroedd aros o'r atgyfeiriad i'r driniaeth ym mis Rhagfyr 2009, lle roedd 99.8% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth, ac nid oedd neb yn aros dros 36 wythnos.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55651) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa strwythurau y mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn eu rhoi ar waith i sicrhau cyswllt a llwybr effeithiol rhwng cymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ysgol ac ymuno â chlybiau chwaraeon lleol. (WAQ55658)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Fel y nodais yn fy ymateb i'ch cwestiwn yn gynharach yn y mis (cyf WAQ55529) mae'r rhaglen 5 x 60 a weinyddir gan Gyngor Chwaraeon Cymru yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol i sicrhau y caiff pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun eu hannog i ymuno â chlybiau chwaraeon lleol. Er enghraifft, mae Ysgol Uwchradd Pontypridd wedi sefydlu cysylltiadau â thîm pêl-droed i ferched; clwb sgïo, sydd wedi arwain at nifer o ddisgyblion yn ymuno â'r academi ar y penwythnos; a sefydlwyd sesiynau i bobl anabl gyda thîm pêl-droed lleol arall.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55653) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio at gynyddu cyfran y llaeth o Gymru a ddefnyddir ar gyfer cynnyrch gwerth ychwanegol. (WAQ55656)

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

Wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru, y llynedd darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arian i gomisiynu gwaith i ystyried y cyfleoedd posibl ar gyfer cynhyrchion Llaeth Gwerth Ychwanegol yn y categorïau allweddol ar gyfer y diwydiant; sef, iogwrt, melysfwyd oer, hufen iâ, caws, llaeth â blas a menyn. Gwerth cyfunol yr holl sectorau llaeth gwerth ychwanegol yn y DU yw £6.2 biliwn. Nododd y gwaith ymchwil hwn nifer o gyfleoedd y gallai Diwydiant Llaeth Cymru fanteisio arnynt o bosibl. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach yn awyddus bod cwmnïau o Gymru yn cael budd o'r gwaith ymchwil hwn ac yn datblygu cynhyrchion newydd ar gyfer y farchnad.

Datblygwyd rhaglen gymorth i sicrhau bod y diwydiant yn manteisio ar y wybodaeth hon. Datblygwyd y 'rhaglen Cynhyrchion Llaeth Gwerth Ychwanegol' i ddarparu pecyn cymorth cynhwysfawr i gwmnïau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeall Marchnad Manwerthu'r DU, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu cynlluniau marchnata a dealltwriaeth o ddatblygu cyflwyniadau i brynwyr a hyfforddiant o ran sgiliau negodi.

Bydd yn bwysig o'r cychwyn bod y cwmnïau yn hyderus y bydd manwerthwyr/gweithredwyr gwasanaethau bwyd yn croesawu cysyniadau cynnyrch newydd gan gyflenwyr o Gymru. Felly cynigir cynnal cyfweliadau masnach gyda phennaeth cynnyrch llaeth pob un o'r manwerthwyr mawr. Bydd hyn yn sicrhau y ceir dealltwriaeth glir o'u strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol (h.y. ar gyfer Cymru), tra ar yr un pryd sicrhau eu cefnogaeth ar gyfer y rhaglen ac ymrwymiad i weithio gyda chyflenwyr o Gymru yn barhaus.
Mae naw o gwmnïau'n cymryd rhan yn y rhaglen gymorth bwrpasol hon sy'n dechrau'r wythnos nesaf (24ain Chwefror 2010.)

Yn ogystal â'r rhaglen benodol hon, cymeradwywyd cyfanswm o £2.5 miliwn o gymorth grant ar gyfer y Diwydiant Llaeth yng Nghymru ers 2007, gan alluogi buddsoddiad gwerth cyfanswm o £6.5 miliwn yn y sector. Mae cymorth arall gan y Llywodraeth ar gyfer proseswyr ar gael ar hyn o bryd o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ar ffurf y cynllun Grant Prosesu a Marchnata a'r prosiect Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi.

Bu'r Gwobrau Gwir Flas hefyd yn ddull rhagorol o bwysleisio Cymru fel cynhyrchwr cynnyrch arloesol o safon, ac fe'i cydnabyddir gan ddefnyddwyr a'r diwydiant bwyd a diod fel arwydd o ragoriaeth.

Mae diwydiant Cynnyrch Llaeth Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i gynhyrchu llaeth o ganlyniad i systemau sy'n defnyddio gwartheg wedi'u pesgi ar borfa yn bennaf, yr hinsawdd, topograffi ac adnoddau dŵr, sydd oll yn cefnogi cynhyrchu llaeth. Felly rwyf yn awyddus i weld Cymru'n prosesu mwy o'r hyn rydym yn ei fwyta, yn enwedig cynhyrchion llaeth gwerth ychwanegol, a hyderaf y bydd y wybodaeth am y farchnad a gasglwyd a'r rhaglen Cynhyrchion Llaeth Gwerth Ychwanegol yn cael eu croesawu gan y diwydiant ac yn arwain at ddatblygu nifer o gynhyrchion newydd a chyffrous.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o grwpiau gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhortffolio'r Gweinidog sydd wedi cwblhau eu gwaith o fewn yr amserlen ofynnol. (WAQ55645) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog***

***Rhoddwyd ateb ar 5 Mawrth 2010***

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Nid yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael yn ganolog.